**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**20 Gorffennaf 2015**

**MONITRO PERFFORMIAD**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

1 Darparu gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch gweithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac i fonitro perfformiad yn erbyn yr amcanion gwella.

**Gwybodaeth**

2 Er gwybodaeth i'r aelodau, ynghlwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer blwyddyn adrodd 1af Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2015.

**Argymhelliad**

3 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**Atodiad 1**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**DIWEDD BLWYDDYN**
**EBRILL 2014 – MAWRTH 2015**

**Ffigyrau dros dro a ddarperir, ac efallai y bydd mân newidiadau iddynt.**

**CYNNWYS**


| | | |
|---|---|---|
| | **MONITRO GAN GYMHARU AG AMCAN GWELLA 1** | **3-7** |
| | Tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | |
| | Pobl yn dianc yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | |
| RRC/C/005 | Presenoldeb/absenoldeb larwm mwg mewn tanau mewn cartrefi | |
| | Archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner | |
| | | |
| | **ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU** | **8 – 15** |
| | **CRYNODEB** | **8-9** |
| | Trosolwg o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | |
| | | |
| | **TANAU YR AETHPWYD ATYNT** | **10-13** |
| RRC/S/001 | Yr holl danau – prif, eilaidd a simnai | |
| | Yr holl danau – bwriadol a damweiniol | |
| RRC/S/003 | Tanau mewn eiddo annomestig | |
| | | |
| | **GALWADAU AM WASANAETHAU ARBENNIG** | **14-15** |
| | Galwadau brys am wasanaethau arbennig | |
| | | |
| | **GALWADAU DIANGEN** | **16 – 17** |
| RRC/C/002 | Galwadau diangen maleisus | |
| RRC/C/003 | Galwadau diangen oherwydd systemau awtomatig | |
| | Galwadau diangen didwyll | |
| | | |
| | **GEIRFA** | **18** |

**AMCAN GWELLA 1:**

**Atal Marwolaethau ac Anafiadau oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**

**BLWYDDYN ADRODD 2014-15**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni → = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Blwyddyn gyfan | | Cyfartaledd o'r 3 blynedd diwethaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2014-15 | 95 | 107 | 89 | 110 | 401 | ↓ 16.3% | 469 | ↓ 14.5% |
| | 2013-14 | 128 | 117 | 123 | 111 | 479 | | | |
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2014-15 | 4 | 13 | 8 | 10 | 35 | ↓ 23 | 46 | ↓ 11 |
| | 2013-14 | 12 | 17 | 16 | 13 | 58 | | | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2014-15 | 0 | 0 | 3 | 0 | 3 | → | | |
| | 2013-14 | 2 | 0 | 0 | 1 | 3 | | | |
| % y bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn cartrefi | 2014-15 | 85.7% | 83.1% | 85.7% | 87.1% | 85.5% | ↑ 6.3pc | 78.3% | ↑ 7.2pc |
| | 2013-14 | 77.4% | 78.0% | 82.8% | 77.3% | 79.2% | | | |
| Tanau mewn cartrefi - larwm mwg wedi gweithredu | 2014-15 | 67.9% | 62.1% | 65.0% | 87.6% | 65.3% | ↑ 6.5pc | 59.6% | ↑ 5.7pc |
| | 2013-14 | 61.2% | 57.1% | 58.6% | 57.9% | 58.8% | | | |
| Tanau mewn cartrefi – larwm mwg heb weithredu | 2014-15 | 21.7% | 25.0% | 21.4% | 30.1% | 22.8% | ↓ 2.2pc | 25.1% | ↓ 2.3pc |
| | 2013-14 | 23.0% | 28.6% | 19.5% | 29.8% | 25.0% | | | |
| Tanau mewn cartrefi – dim larwm mwg yn bresennol | 2014-15 | 10.4% | 12.9% | 13.6% | 10.6% | 11.9% | ↓ 4.3pc | 15.3% | ↓ 3.4pc |
| | 2013-14 | 15.8% | 14.3% | 21.8% | 12.4% | 16.2% | | | |
| % yr holl Archwiliadau Diogelwch Tân yn y cartref a gynhaliwyd ar ôl atgyfeiriad gan sefydliad partner | 2014-15 | 34.1% | 33.6% | 35.1% | 34.3% | 36.7% | ↑ 4.7pc | 33.1% | ↑ 3.6pc |
| | 2013-14 | 31.1% | 32.5% | 32.2% | 31.9% | 32.0% | | | |

## Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf


- ***Bu 16% neu 78 yn llai o danau damweiniol mewn cartrefi o'i gymharu â 2013/14***

Yn ystod y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 401 o danau damweiniol mewn cartrefi, sydd 78 yn llai na'r flwyddyn flaenorol a 68 yn llai na'r cyfartaledd dros dair blynedd, sef 469.

**Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi:** Cafodd 35 o bobl anafiadau yn y tanau hyn – roedd 33 wedi eu categoreiddio'n fân anafiadau, a 2 yn anafiadau difrifol. Mae'r rhain yn eithrio'r bobl hynny a gynghorwyd i gael archwiliadau rhagofalus a'r rhai a gafodd gymorth cyntaf yn y fan a'r lle yn unig, gan gadw at y cyfarwyddyd cenedlaethol ar gyfer llunio dangosyddion perfformiad cenedlaethol.

**Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi:** Bu tair marwolaeth yn y tanau hyn; dwy yn Hydref yn sir Conwy (Llanrwst) ac un yn Nhachwedd yn Sir Ddinbych (y Rhyl).

*Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ac Anafusion yn ôl Difrifoldeb yr Anaf*





Ers Ebrill 2009 caiff anafusion anangheuol eu cofnodi dan bedwar categori difrifoldeb:

i) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn ddifrifol;
ii) aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'r anafiadau'n ymddangos yn fach;
iii) rhoddwyd cymorth cyntaf yn y fan a'r lle yn unig;
iv) argymhellwyd archwiliad rhagofalus – ystyr hyn yw y bydd unigolyn yn cael ei anfon i'r ysbyty neu'n cael ei gynghori i weld meddyg rhag ofn, ond pryd nad oes unrhyw anaf neu ddioddefaint amlwg.

**Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a ddihangodd yn ddianaf heb gymorth y gwasanaeth tân ac achub yn y tân**

- **Bu i *85.5 % o'r bobl mewn tân damweiniol mewn cartref ddianc yn ddianaf a heb gymorth gan y criwiau a aeth at y tân. Mae hyn yn gynnydd o 6.3 pwynt canrannol o gymharu â 2013/14.***

*% y bobl mewn tanau damweiniol mewn cartrefi a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth*




* Ffigyrau cyfartalog 3 blynedd a gyfrifwyd gan ddefnyddio data rhifiadol yn hytrach na chanrannau dangosol

Gyda rhybudd cynnar gan larwm mwg sy'n gweithio, a chynllun dianc wedi ei ymarfer ac wedi ei deilwra i anghenion unigol preswylwyr y cartref, y gall pobl gael y siawns orau i ddianc yn ddianaf o dân mewn cartref heb orfod dibynnu ar gael eu hachub gan griw tân.


Mae'r 85.5% yn ymwneud â chyfanswm o 770 o bobl a adawodd leoliad y tân, gyda 658 ohonynt wedi gallu gadael y cartref yn ddiogel heb orfod cael eu hachub gan griw tân.

## Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb Larymau Mwg

- ***11.9% o'r cartrefi a gafodd dân oedd heb larwm mwg (52 o danau), sydd 4.3 pwynt canrannol yn uwch na'r flwyddyn flaenorol***

Bu 438 o danau mewn cartrefi yn ystod y flwyddyn, 81 (16.2%) yn llai na chyfanswm y flwyddyn flaenorol, sef 519, a llai na'r cyfartaledd 3 blynedd o 514.

*Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb larymau mwg (canran)*





* Ffigyrau cyfartalog 3 blynedd a gyfrifwyd gan ddefnyddio data rhifiadol yn hytrach na chanrannau dangosol

Mewn 65.3% o'r tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt (286 o danau) **roedd larwm wedi ei osod ac wedi seinio**. Mae hyn yn gynnydd o 6.5 pwynt canrannol o gymharu â 2013/14, ac yn 5.7 pwynt canrannol o gynnydd o gymharu â'r cyfartaledd dros dair blynedd.

Mewn 22.8% o'r tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt (100 o danau), roedd **larwm wedi ei osod ond heb seinio**. Roedd hyn 2.2 pwynt canrannol yn is na'r flwyddyn flaenorol ac yn ostyngiad o 2.3 pwynt canrannol o gymharu â'r cyfartaledd 3 blynedd. Y prif reswm pam nad oedd larymau wedi seinio er eu bod yn yr eiddo oedd y ffaith nad oedd y tân yn ddigon agos i'r larwm i beri iddo seinio, (dyma oedd y rheswm mewn 64 allan o 100 o'r tanau).

*Tanau mewn Cartrefi: Presenoldeb larymau mwg (nifer)*




## Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (ADTC)

- ***Cwblhawyd 36.7% o'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad partner.***

Yn ystod y flwyddyn, roedd 10,047 (36.7%) o blith y 27,352 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn rhai a oedd yn deillio o atgyfeiriadau gan sefydliadau partner. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i darged y Gwasanaeth ei hun, sef 30%.

*% yr holl Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd wedi deillio o atgyfeiriad gan sefydliad partner*




* Ffigyrau cyfartalog 3 blynedd a gyfrifwyd gan ddefnyddio data rhifiadol yn hytrach na chanrannau dangosol

## ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU:

**BLWYDDYN ADRODD 2014-15**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren**= dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol


| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Blwyddyn gyfan | | Cyfartaledd dros y tair blynedd blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y digwyddiadau a fynychwyd | 2014-15 | 1,587 | 1,740 | 1,491 | 1,275 | 6,093 | ↓ 4.1% | 6,959 | ↓ 12.4% |
| | 2013-14 | 1,716 | 1,799 | 1,530 | 1,310 | 6,355 | | | |
| Cyfanswm y tanau | 2014-15 | 631 | 646 | 493 | 474 | 2,244 | ↓ 7.1 % | 2,643 | ↓ 15.1% |
| | 2013-14 | 798 | 685 | 477 | 456 | 2,416 | | | |
| Cyfanswm y digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2014-15 | 176 | 164 | 161 | 130 | 631 | ↓ 24.6% | 1,010 | ↓ 37.5% |
| | 2013-14 | 209 | 206 | 223 | 199 | 837 | | | |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2014-15 | 780 | 930 | 837 | 671 | 3,218 | ↑ 3.7% | 3,306 | ↓ 2.7% |
| | 2013-14 | 709 | 908 | 830 | 655 | 3,102 | | | |

**Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt:**

- ***Bu gostyngiad o 4.1% neu 262 yn llai o ddigwyddiadau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.***

Yn ystod y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 6,093 o ddigwyddiadau, sydd yn is na'r blynyddoedd blaenorol, ac sy'n parhau â'r tueddiad cyffredinol am i lawr. Bu gostyngiad o 24.6% yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig o'u cymharu â 2013/14, a gostyngiad o 37.5% o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol. Bu cynnydd o 3.7% yn nifer y digwyddiadau galwadau diangen o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond gostyngiad o 2.7% o gymharu â'r cyfartaledd dros y 3 blynedd flaenorol. Bu gostyngiad o 7.1% (172 yn llai) yng nghyfanswm y digwyddiadau tân o'i gymharu â'r llynedd, a gostyngiad o 15.1% o gymharu â'r cyfartaledd dros 3 blynedd.

*Yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt, yn ôl math*



## ADRODD AM WEITHGARWCH DIGWYDDIADAU: Y tanau yr aethpwyd atynt

**BLWYDDYN ADRODD 2014-15**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Blwyddyn gyfan | | Cyfartaledd dros 3 blynedd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm tanau | 2014-15 | 631 | 646 | 493 | 474 | 2,244 | ↓ 7.1 % | 2,643 | ↓ 15.1% |
| | 2013-14 | 798 | 685 | 477 | 456 | 2,416 | | | |
| Prif danau | 2014-15 | 277 | 289 | 254 | 243 | 1,063 | ↓ 4.8% | 1,186 | ↓ 10.4% |
| | 2013-14 | 323 | 302 | 258 | 234 | 1,117 | | | |
| Tanau eilaidd | 2014-15 | 315 | 347 | 158 | 144 | 964 | ↓ 11.3 % | 1,196 | ↓ 19.4% |
| | 2013-14 | 420 | 367 | 151 | 149 | 1,087 | | | |
| Tanau simnai | 2014-15 | 39 | 10 | 81 | 87 | 217 | ↑ 2.4% | 261 | ↓ 6.9% |
| | 2013-14 | 55 | 16 | 68 | 73 | 212 | | | |
| Yr holl danau bwriadol | 2014-15 | 225 | 235 | 145 | 119 | 724 | ↓ 8.6% | 999 | ↓ 27.5% |
| | 2013-14 | 287 | 250 | 149 | 106 | 792 | | | |
| Yr holl danau damweiniol | 2014-15 | 406 | 411 | 348 | 355 | 1,520 | ↓ 6.4% | 1,644 | ↓ 7.6% |
| | 2013-14 | 511 | 435 | 328 | 350 | 1,624 | | | |
| Tanau mewn eiddo annomestig | 2014-15 | 41 | 31 | 43 | 24 | 139 | ↑ 20.9% | 139.3 | ➡ 0.2% |
| | 2013-14 | 30 | 25 | 26 | 34 | 115 | | | |

## Tanau:

- ***Bu gostyngiad o 7.1% neu 172 yn llai o danau o'i gymharu â 2013/14.***

Yn ystod y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 2,244 o danau. Bu gostyngiad o 4.8% yn nifer y prif danau, gostyngiad o 11.3% yn nifer y tanau eilaidd a chynnydd o 2.4% yn nifer y tanau simnai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O gymharu â'r darlun yn y tymor hir a'r cyfartaledd 3 blynedd, parhaodd y tueddiad cyffredinol am i lawr (gwelliant) yn nifer y digwyddiadau tân yr aeth y Gwasanaeth atynt. O ganlyniad i'r tywydd gwlypach na'r arfer yn ystod 2012/13 bu nifer isel o danau y flwyddyn honno.


## Tanau: Math

Aeth nifer y **prif danau** i lawr 4.8% neu 54 yn llai o ddigwyddiadau o'i gymharu â 2013/14, ac roedd 10.4% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd. Mae prif danau wedi parhau i ostwng bob blwyddyn ers 2008/09.

Yn ystod y flwyddyn, bu gostyngiad yn nifer y **tanau eilaidd**, 11.3% neu 123 yn llai o ddigwyddiadau o'i gymharu â 2013/14, ac roedd 19.4% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

Bu cynnydd yn nifer y **tanau simnai** 2.4%, neu 5 yn fwy o danau, o gymharu â 2013/14 ond mae'n parhau 17.0% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd.


*Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl math*



**Tanau: Cymhelliad**

Mae'r gostyngiad yn nifer y tanau yn 2014/15 o'i gymharu â 2013/14 hefyd yn cael ei adlewyrchu yn nifer y tanau damweiniol a'r tanau bwriadol gyda gostyngiad o 6.4% a 8.6% yn eu trefn. Roedd tanau damweiniol a bwriadol hefyd yn parhau'n is na'r cyfartaledd 3 blynedd.

*Yr holl danau yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad*




**Tanau: Safleoedd annomestig:**

- ***Bu cynnydd o 20.9% neu 24 yn fwy o danau ar safleoedd annomestig o'i gymharu â 2013/14.***

Yn ystod 2014/15, aeth y Gwasanaeth at 139 o danau o'r fath, 20.9% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol (24 yn fwy o ddigwyddiadau) ond yn parhau'n debyg i'r cyfartaledd 3 blynedd. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r nifer o danau mewn safleoedd annomestig gynyddu ers 2008/09 - tan eleni bu tueddiad am i lawr.

*Tanau ar Safleoedd Annomestig ac Anafusion oherwydd tanau mewn safleoedd annomestig*



**ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU:**
**Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (nid tanau) yr aethpwyd atynt**

**BLWYDDYN ADRODD 2014-15**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid

↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Blwyddyn gyfan | | Cyfartaledd dros y 3 blynedd blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm digwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2014-15 | 176 | 164 | 161 | 130 | 631 | ↓ 24.6% | 1010 | ↓ 37.5% |
| | 2013-14 | 209 | 206 | 223 | 199 | 837 | | | |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 2014-15 | 76 | 63 | 79 | 49 | 267 | ↓ 14.4% | 391 | ↓ 31.7% |
| | 2013-14 | 83 | 78 | 85 | 66 | 312 | | | |
| Heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 2014-15 | 100 | 101 | 82 | 81 | 364 | ↓ 30.7% | 620 | ↓ 41.3% |
| | 2013-14 | 126 | 128 | 138 | 133 | 525 | | | |

**Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig:**


- ***Bu gostyngiad o 24.6% neu 206 yn llai o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig o'i gymharu â 2013/14.***

Yn ystod 2014/15, aeth y Gwasanaeth at 631 o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig, sydd yn is na'r flwyddyn flaenorol ac is na'r cyfartaledd tair blynedd.

Parhaodd nifer y **gwrthdrawiadau ar y ffyrdd** i ostwng. Hefyd bu gostyngiad yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig **heblaw gwrthdrawiadau ar y ffyrdd**, gyda 30.7% neu 161 yn llai o ddigwyddiadau o gymharu â llynedd, a pharhaodd yn is na'r cyfartaledd dros 3 blynedd.

Er bod y tywydd gwlypach na'r arfer yn ystod 2012/13 wedi arwain at lai o danau, fe wnaeth y digwyddiadau gwasanaeth arbennig gynyddu, fel gwrthgyferbyniad, oherwydd y tywydd.

*Gwasanaethau Arbennig yr aethpwyd atynt, yn ôl math*



**ADRODD AM WEITHGARWCH YN YMWNEUD Â DIGWYDDIADAU: Mynd at alwadau diangen**

**BLWYDDYN ADRODD 2014-15**

Dangosir cymhariaeth â ffigurau'r llynedd yn y golofn dde yn y tabl.
Lliw'r cefndir - **Gwyrdd** = gwelliant; **Coch** = dirywiad; **Oren** = dim newid
↑ = cynnydd eleni ↓ = gostyngiad eleni ➡ = dim newid PC = pwyntiau canrannol

| Categori | Blwyddyn | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Blwyddyn gyfan | | Cyfartaledd dros y 3 blynedd diwethaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2014-15 | 780 | 930 | 837 | 671 | 3,218 | ↑ 3.7% | 3,306 | ↓ 2.7% |
| | 2013-14 | 709 | 908 | 830 | 655 | 3,102 | | | |
| Galwadau diangen maleisus | 2014-15 | 26 | 19 | 17 | 15 | 77 | ➡ 0.0% | 105 | ↓ 26.7% |
| | 2013-14 | 22 | 23 | 11 | 21 | 77 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2014-15 | 303 | 331 | 299 | 236 | 1169 | ↓ 0.1% | 1251 | ↓ 6.6% |
| | 2013-14 | 270 | 364 | 304 | 232 | 1170 | | | |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo annomestig | 2014-15 | 262 | 372 | 343 | 273 | 1250 | ↑ 3.2% | 1,324 | ↓ 5.6% |
| | 2013-14 | 257 | 344 | 346 | 264 | 1211 | | | |
| Galwadau diangen oherwydd system awtomatig mewn eiddo arall | 2014-15 | 189 | 208 | 178 | 147 | 722 | ↑ 12.1% | 625 | ↑ 15.5% |
| | 2013-14 | 160 | 177 | 169 | 138 | 644 | | | |


**Galwadau diangen:**

- ***Bu cynnydd o 3.7% neu 116 yn fwy o alwadau diangen o'i gymharu â 2013/14.***

Yn ystod 2014/15 aeth y Gwasanaeth allan at 3,218 o alwadau am gymorth a drodd i fod yn alwadau diangen. Mae'r nifer hwn yn gynnydd o 3.7% o gymharu â 2013/14.

Mae niferoedd cyffredinol y galwadau diangen yn y categorïau canlynol: galwadau diangen oherwydd systemau awtomatig mewn eiddo annomestig ac eiddo arall wedi cynyddu o gymharu â 2013/14, fodd bynnag, bu gostyngiad yn nifer y galwadau diangen maleisus a galwadau diangen a wneir yn ddidwyll, o gymharu â 2013/14.

*Galwadau diangen yr aethpwyd atynt, yn ôl math*




Oherwydd i'r categorïau galwadau diangen gael eu hail-gysoni cyn cychwyn blwyddyn ariannol 2011/12 o ganlyniad i drafodaethau ar lefel genedlaethol, cafwyd newid yng nghyfran y galwadau diangen a gategoreiddwyd fel 'galwadau diangen systemau awtomatig' a'r rhai a gategoreiddwyd fel 'galwadau diangen a wnaed yn ddidwyll'.

Felly, roedd yn amhosibl cymharu tebyg wrth debyg rhwng ffigurau 2011/12 a ffigurau'r flwyddyn flaenorol mewn perthynas â'r ddau gategori hwn o alwadau diangen. Dydy hyn ddim yn effeithio ar y gymhariaeth rhwng ffigurau 2011/12 a ffigurau blynyddoedd wedi hyn.

## GEIRFA

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân i'w osod yn o'r tri chategori canlynol – prif, eilaidd neu simnai. |
| Prif danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simneiau, ac sydd yn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn rhai simnai na phrif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb |
| Tanau simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>d) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – systemau awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |